

Cyllideb Ddrafft: 2022-23

Medi 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2021**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neugyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cyllideb Ddrafft: 2022-23

Medi 2021





Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	6
2.	Y gyllideb.....	7
	Ffyrdd newydd o weithio.....	8
	Cynllunio'r gweithlu	8
	Y Gwasanaeth TGCh a Darlledu.....	9
	Strategaeth yr ystâd	9
	Cyflawni ein blaenoriaethau	10
	Ymgysylltu.....	11
	Diwygio'r Senedd.....	12
	Swyddfa'r Comisiynydd Safonau.....	13
	Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 - Prydlesi.....	13
	Costau Yswiriant Gwladol	14
3.	Llywodraethiant a rheolaeth ariannol.....	15
4.	Y Gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau	16
5.	Cwmpas y gyllideb	18
	Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb.....	20
	Atodiad 2: Manylion y Gyllideb	22

1. Cyflwyniad

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Defnyddir cyllideb Comisiwn y Senedd ("y Comisiwn") i dalu costau cynnal y Senedd. Mae hefyd yn talu costau cyflogau a lwfansau'r Aelodau a'u staff fel y'u pennir gan y Bwrdd Taliadau annibynnol.

Mae gan Aelodau o'r Senedd gyfrifoldeb sylweddol. Maent yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ac yn cytuno ar drethi yng Nghymru. Yn ei dro, mae'r Comisiwn yn darparu'r sgiliau arbenigol, y gwasanaethau cymorth a'r adnoddau i gynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu gwaith craffu, deddfu a chynrychioli.

2. Y gyllideb

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2022-23 yw £62.942 miliwn a bydd yn darparu ar gyfer:

- gwariant sydd dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn, gan gynnwys cronfa brosiectau (y gyllideb weithredol);
- Dibrisiant (cost nad yw'n arian parod);
- y gyllideb ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau;
- cyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau;
- y ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn yr Aelodau dan bennawd Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF) Trysorlys EM;

Rydym wedi darparu ffigurau ar gyfer 2022-23 a'r ddwy flynedd ganlynol yn unol â'r tybiaethau cynllunio presennol ac, fel y mae'r 18 mis diwethaf wedi dangos, bydd angen i'n dull gweithredu fod yn hyblyg ac yn ystwyth, gan gofio'r pwysau y mae'r sector cyhoeddus ehangach yn eu hwynebu. Mae'r gyllideb yn ymdrin â'n hanghenion hanfodol ac yn gwasanaethu'r ymrwymadau hynny pan fo gennym reolaeth gyfyngedig neu pan nad oes gennym reolaeth o gwbl. Byddwn yn parhau i reoli ein cyllideb yn gyfrifol.

Mae cyllideb weithredol y Comisiwn yn cyflwyno cynnydd 4.39 y cant o'i chymharu â 2021-22. Bydd hyn yn ariannu cynnydd chwyddiant a chynnydd arall ar gyfer cyllidebau nad ydynt yn ymwneud â staff, megis newidiadau yn y gyllideb TGCh lle y mae gwaith hybrid parhaus yn creu gofynion ychwanegol o ran adnoddau. Mae hefyd yn darparu cronfa brosiectau y bydd cynlluniau buddsoddi yn cael eu blaenoriaethu yn ôl yr angen a'r adnoddau ariannol a phersonél sy'n ofynnol i'w cyflawni. Bydd hefyd yn ariannu'r dyfarniad cyflog yn y gyllideb staffio (2.7 y cant yn 2022-23, gan ddefnyddio'r setliad cyflog pum mlynedd, cytûn wedi'i gysylltu â mynegai ASHE y cytunwyd arno ag Ochr yr Undebau Llafur).

Ffyrdd newydd o weithio

Fel Comisiwn, rydym yn adolygu'n barhaus sut rydym yn darparu gwasanaethau. Oherwydd y pandemig, bu'n ofynnol i ni weithio mewn ffyrdd mwy hyblyg ac arloesol nag erioed.

Ers dechrau'r pandemig, rydym wedi dangos ein gallu i barhau i ddefnyddio ein hadnoddau'n ddoeth i ddarparu cymorth seneddol arloesol o'r radd flaenaf i'r Aelodau dan yr amgylchiadau mwyaf heriol, ac i barhau i ymgysylltu â phobl ar draws Cymru.

Mae'r Aelodau wedi gwneud penderfyniadau busnes sy'n golygu mai gweithio gartref fu'r opsiwn diofyn iddynt dros y 12 mis diwethaf, ac eithrio cyfnodau brith o weithio hybrid.

Bellach, mae gennym gyfle unigryw i greu model gweithio newydd, hyblyg, ymatebol a chynaliadwy wrth i ni ddysgu mwy am y byd ar ôl y pandemig a dewisiadau'r Aelodau yn y Chweched Senedd. Cefnogi Busnes y Senedd yw ein blaenoriaeth: mae'n rhaid rhoi'r hyblygrwydd sydd gan staff yn erbyn anghenion busnes, gan gynnal lefelau gwasanaeth, a sicrhau bod y dull yn gweddu i anghenion yr Aelodau.

Cynllunio'r gweithlu

Cyhoeddwyd ein strategaeth pobl yn 2019. Mae'n cwmpasu'r cyfnod hyd at 2023 ac mae'n ganolog i gyflawni nodau strategol y Comisiwn. Y prif nod yw sicrhau bod gennym weithlu ystywyth sy'n darparu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiad cywir i gyflawni ein nodau presennol wrth baratoi at ofynion a heriau'r dyfodol. Mae arloesiadau gweithdrefnol a thechnolegol a'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig wedi cael dylanwad trwm ar hyn.

Bydd y gofynion a heriau hyn yn golygu bod angen ymagwedd aeddfed at gynllunio'r gweithlu, gan gynnwys adolygiad o'r capasiti sefydliadol presennol ochr yn ochr â'n gwaith cynllunio gwasanaeth rheolaidd, i asesu a diffinio'r adnoddau y mae ar y Comisiwn eu hangen i gyflawni ei flaenoriaethau.

Er bod y pandemig wedi cynnig toreth o gyfleoedd i wneud pethau'n wahanol, rydym yn parhau i fod yn ystyriol ac yn rhagweithiol ynghylch gofalu am lesiant pawb nad yw newid i weithio gartref wedi bod yn gwbl gadarnhaol iddo.

Yn y Chweched Senedd, byddwn yn parhau i herio ein hunain a hynny o fewn cyllideb sy'n cynnig gwerth am arian i bobl Cymru.

Y Gwasanaeth TGCh a Darlledu

Un o'r gwasanaethau y mae'r pandemig wedi effeithio arno fwyaf yw'r Gwasanaeth TGCh a Darlledu.

O fewn wythnosau ar ôl y cyfnod clo cyntaf, roedd penderfyniad clir i barhau i gyflawni Busnes y Senedd a gweithiodd y timau yn y Gwasanaeth TGCh a Darlledu yn galed i gynnig ateb rhithwir.

Cyn gynted ag roedd yr amgylchiadau'n caniatáu, cyflwynwyd cyfarfodydd hybrid a oedd yn galluogi rhai Aelodau i fod yn bresennol ar ystâd y Senedd, gyda'r gweddill yn bresennol yn rhithwir. Mae'r adnodd TGCh roedd ei angen i sefydlu hyn ac i ddarparu cymorth parhaus yn sylweddol, gyda dibyniaeth y Senedd ar dechnoleg yn dod yn bwysicach fyth i ddarparu gwasanaethau a pharhad busnes. Yr hyn rydym wedi'i ddysgu o'r pandemig hyd yn hyn yw bod yr adnoddau sydd eu hangen i gynnal dull gweithio hybrid yn sylweddol fwy na dull gweithio rhithwir neu gyda phawb yn bresennol ar yr ystâd.

Bu buddsoddiad parhaus mewn seilwaith TGCh, yn enwedig seiberddiogelwch, y bydd angen ei gynnal yng nghyllidebau'r dyfodol i amddiffyn defnyddwyr a systemau'r Senedd.

Disgwylir i'r contract darlledu gael ei adnewyddu yn ystod 2022-23 ac, ar hyn o bryd, mae'r holl opsiynau'n cael eu hystyried o ran posibilrwydd dod ag elfennau'n fewnol neu aildendro yn y fformat presennol. Bydd unrhyw gynnydd yng nghost y contract hwn yn cael ei ariannu o'r gronfa brosiectau yn 2022-23 a'i ymgorffori yng nghyllidebau gwasanaeth y dyfodol.

Disgwylir i'r gwaith i uwchraddio ein meddalwedd deddfwriaeth ddod i ben yn gwanwyn 2022. Mae costau lletya, cynnal a chadw a thrwyddedau wedi'u cynnwys yng nghyllideb barhaus TGCh.

Strategaeth yr ystâd

Bydd y Comisiwn yn ystyried dyfodol yr ystâd ehangach ddechrau'r Chwched Senedd. Er bod adeilad y Senedd ei hun wedi bod yn gartref eiconig y gallir ei addasu, mae angen adolygu'r defnydd o Dŷ Hywel, y Pierhead a swyddfa Gogledd Cymru.

Er bod y pandemig o bosibl wedi newid yn sylfaenol y ffordd rydym yn defnyddio'r ystâd, mae llacio cyfyngiadau, yn ogystal â Chomisiwn newydd, dewisiadau Aelodau newydd, patrwm busnes newydd, ac awydd am ffyrdd dyfodol ystywyth o weithio wedi cyflwyno ansicrwydd ynghylch lefelau deiliadaeth a phatrymau

defnydd o'r ystâd. Bydd y rhain yn cymryd amser i ddod yn amlwg. Yn y cyfamser, bydd yr ansicrwydd yn cyflwyno risg i benderfyniadau sylweddol yr ystâd megis swyddfa Gogledd Cymru a disodli'r contract arlwy.

Wrth wneud y penderfyniadau hyn, bydd angen i'r Comisiwn ystyried awydd yr Aelodau a'u staff i weithio o leoliadau gwahanol heblaw am Dŷ Hywel.

Er mwyn canolbwyntio ar yr holl ystyriaethau hyn, gan gynnwys y goblygiadau i gynlluniau adeiladau Comisiwn y Llywodraeth yn y dyfodol a'r posibilrwydd i ddiwygio'r Senedd yn y dyfodol, byddwn yn gweithio'n gyflym i lunio Strategaeth Adeiladau.

Ddechrau 2021, gwnaed nifer o newidiadau i'r dodrefn yn Nhŷ Hywel i brofi ffyrdd gwahanol o weithio a hwyluso cyfarfodydd hybrid rhwng defnyddwyr yr adeilad ar yr ystâd ac oddi arni. Yn ogystal, trowyd nifer o feysydd yn fannau gweithio a rennir lle y disgwylir y bydd lefel defnydd staff yn addas i'r math hwn o drefniad.

Cyflawni ein blaenoriaethau

Mae'r gyllideb yn cynnwys cronfa brosiectau a fydd yn ariannu gwariant angenrheidiol uwchben y cyllidebau busnes fel arfer.

Sefydlwyd y Swyddfa Rhaglenni a Newid i oruchwylio'r holl brosiectau yn y Comisiwn a chynnal amserlenni a chynlluniau rhaglen i'w cyflawni. Mae'r gwaith hwn yn golygu bod gan y Comisiwn ddealltwriaeth gynhwysfawr o brosiectau sydd ar ddod, a gofynion ariannol ac adnoddau cysylltiedig, fel y gellir eu trefnu mewn ffordd sy'n cynnig gwerth rhagorol i'r Comisiwn wrth barchu cyfyngiadau capasiti.

Y prosiect mwyaf sydd ar yr agenda ar hyn o bryd yw ailosod y ffenestri yn Nhŷ Hywel. Maent yn 30 oed ac yn gyffredinol maent mewn cyflwr gwael ac nid yw rhannau newydd ar gael. Mae telerau'r brydles yn gosod cyfrifoldeb ar y Comisiwn i gynnal a chadw'r adeilad mewn cyflwr da, gan ddisodli eitemau diwedd oes megis boeleri, drysau a ffenestri.

Gwnaed gwaith ymgynghori yn 2020 i ystyried maint a chost y gwaith ac argymhellwyd y dylid ailosod y ffenestri fel un prosiect dros 52 o wythnosau er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd cost mwyaf a chadw cymaint o sicrwydd cost â phosibl (hynny yw, gall nifer o gamau arwain at gostau uwch). Amcangyfrifwyd y bydd yr opsiwn a argymhellir yn costio tua £6.0 miliwn gan gynnwys ffioedd a TAW anadferadwy. Nid yw hon yn gost y byddai'r Comisiwn yn gallu ei thalu o'i gyllideb weithredol. Mae angen gwneud penderfyniad i fwrw ymlaen, ochr yn

ochr â phenderfyniadau ynghylch dyfodol tymor hir Tŷ Hywel ac, fel y crybwyllwyd uchod, rhoddir sylw i hyn yn y strategaeth adeiladau. Mae'n bosibl y gallai'r ffenestri gael eu hailosod yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24.

Ymgysylltu

Mae rhoi pobl wrth wraidd y senedd yn parhau i fod yn ganolbwynt i'n gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu.

Yn ystod y pandemig, bu diddordeb digynsail yng ngwleidyddiaeth Cymru a gwaith y Senedd, sydd wedi arwain at alw cynyddol am straeon newyddion a mwy o ymgysylltiad â'n hallbwn digidol. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y llwyddiant hwn, gan ganolbwyntio adnoddau ar greu cynnwys arloesol i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd drwy amrywiaeth o lwyfannau a'u cynnwys mewn sgysiau gwerthfawr am waith y Senedd a sut y mae'n effeithio ar eu bywydau.

Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y ffyrdd newydd o weithio drwy ddefnyddio technoleg ddigidol i wella cyfranogiad a phrofiad y gynulleidfa ymhellach. Byddwn yn buddsoddi mewn datblygu rhaglen ymgysylltu dreigl fel rhan o'n strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd, a fydd yn cynnwys profiadau wyneb yn wyneb, rhithwir a hybrid ar yr ystâd ac oddi arni.

Cynhelir ail etholiad y Senedd leuenctid ym mis Tachwedd 2021. Bydd yr ail dymor yn edrych ar faterion newydd y mae pobl ifanc yng Nghymru yn eu hwynebu ac yn sicrhau y bwir ymlaen â gwaith ac argymhellion y Senedd leuenctid gyntaf.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cofnodi'n briodol, yn gwerthuso ac yn cynnig ymgysylltiad parhaus â'n cynulleidfaoedd, bydd angen buddsoddiad parhaus mewn dau brosiect mawr: Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ac Offer Ymgysylltu Ar-lein. Bydd y prosiectau hyn yn ychwanegol at ddatblygu meysydd allweddol megis dirnadaeth cynulleidfa, cyfryngau cymdeithasol, a gwerthuso cadarn i fod yn fwy seiliedig ar ganlyniadau a chael eu sbarduno gan effaith.

Diwygio'r Senedd

Mae'r ddadl yn parhau ynghylch capasiti'r Senedd i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Cydnabu'r Comisiwn blaenorol gyfyngiadau'r Senedd 60 Aelod bresennol fel un o'r heriau allweddol ar gyfer y dyfodol. Manteisiodd y strategaeth ar gyfer y Bumed Senedd i'r eithaf ar y ffaith ei bod yn fach er mwyn deall yn well anghenion yr Aelodau ac addasu'r gwasanaethau a ddarparwyd;

Mae'r Senedd yn gyfrifol am ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ar y nifer sylweddol o swyddogaethau newydd y mae'r Llywodraeth bellach yn gyfrifol amdanynt a arferid yn flaenorol gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae newidiadau eraill i drefniadau cyfansoddiadol a llywodraethiant y DU yn cael eu rhoi ar waith, megis Deddf Marchnad Fewnol y DU a fframweithiau cyffredin y DU mewn meysydd polisi lle y mae pwerau wedi dychwelyd o'r UE ac yn croestorri â chymhwysedd datganoledig. Mae'r Aelodau'n asesu effaith y newidiadau hyn ar y setliad datganoli.

Bydd pwysau mawr ar yr Aelodau a gwasanaethau'r Comisiwn o hyd a gallant gynyddu ymhellach yn ystod y Chweched Senedd. Mae sicrhau bod gwasanaethau cymorth yr Aelodau a'r Comisiwn yn gallu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol yn faes lle y gall fod angen buddsoddiad, megis cymorth ar gyfer cysylltiadau rhyngseneddol.

Yn wyneb y pwysau parhaus o gael Senedd â 60 Aelod, bydd y Comisiwn bellach yn ystyried beth yw'r ffordd orau o ganolbwyntio ei gymorth i'r Aelodau.

Mae rhai Aelodau wedi mynegi awydd i geisio diwygio system etholiadol a maint y Senedd yn y Chweched Senedd. Mae'r Prif Weinidog wedi mynegi barn mai "mater i'r Senedd ei hun" yw bwrw ymlaen â chynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd, yn y lle cyntaf.

Os yw'n dod yn amlwg, yn ystod y Senedd hon, fod angen i'r Comisiwn gynllunio ar gyfer cynnydd ym maint y Senedd, byddai angen ail-lunio ei strategaeth gyllidebol.

Swyddfa'r Comisiynydd Safonau

Yn ei adroddiad 'Creu'r Diwylliant Cywir', argymhellodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad fod y Comisiwn yn darparu swyddogaeth gynghori a chymorth i swyddfa'r Comisiynydd, yn ogystal â chymorth arbenigol.

Crëwyd dwy rôl i ategu gwaith y Comisiynydd Safonau ac, fel Comisiwn, mae angen i ni ddiogelu elfen o'r gyllideb i'w galluogi i wneud eu gwaith. Felly, ar gyfer 2022-23, mae'r gyllideb wedi'i symud o gyllideb weithredol y Comisiwn ac mae bellach yn cael ei dangos ar wahân fel cyllideb wedi'i chlustnodi. Mae hyn yn cynnwys costau'r ddau aelod o staff sy'n cefnogi'r swyddfa, yn ogystal â chyllideb ar gyfer negeseuon annibynnol a chynghor cyfreithiol i'r Aelodau.

Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 - Prydlesi

Y bwriad oedd i'r safon gyfrifyddu newydd, Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 - Prydlesi ("Safon 16"), ddod i rym o flwyddyn ariannol 2020-21. Yna, gwnaeth Trysorlys Ei Mawrhydi a'r Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol benderfyniad i ohirio gweithredu Safon 16 tan 1 Ebrill 2021. Ym mis Tachwedd 2020, gwnaed cyhoeddiad arall gan y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol i ohirio gweithredu eto tan 1 Ebrill 2022. Roedd y ddau ohiriad hyn o ganlyniad i'r amgylchiadau a achoswyd gan Covid-19.

Yn unol â Safon 16, mae'n rhaid rhoi cyfrif am bob prydles mewn modd cyson. Yn flaenorol, nid oedd prydlesi a ddosbarthwyd yn 'brydlesi gweithredol' yn cael eu cydnabod ac roeddent yn cael eu hadrodd 'oddi ar y fantolen'. Mae'r newid hwn yn effeithio'n bennaf ar sut yr ymdrinnir â phrydles adeilad Tŷ Hywel ym Mae Caerdydd, sy'n gartref i'r rhan fwyaf o staff y Comisiwn. Ar hyn o bryd, nid yw Tŷ Hywel yn cael ei ddosbarthu fel ased ac nid yw'n cael ei ddibrisio. O 1 Ebrill 2022, pan fydd yn cael ei gydnabod fel ased hawl defnyddio, bydd yn cael ei ddibrisio dros y cyfnod y rhagwelir y bydd y brydles yn para yn y dyfodol.

Bydd y newid yn arwain at gynnydd yn y taliadau dibrisiant a chyllid llog yng nghyllideb y Comisiwn. Caiff y taliadau hyn eu gwrthbwysu'n rhannol gan ostyngiad yng nghost rhentu'r swyddfa a ddangosir yn y gyllideb.

Bydd cyllideb gyffredinol y Comisiwn yn cynyddu. Fodd bynnag, ni fydd y newidiadau hyn yn cynyddu'r gofyniad arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru. Ni fydd newid yn swm y rhent a delir i'r landlord wrth weithredu Safon 16, ond bydd y cyflwyniad cyfrifyddu yn wahanol.

Ni ddangosir effaith Safon 16 yn Atodiad 1 na 2. Bydd cyllideb y Comisiwn yn cael ei haddasu, yn amodol ar ohiriadau eraill gan Drysorlys Ei Mawrhydi a'r Bwrdd Cyngori ar Adroddiadau Ariannol, i adlewyrchu Safon 16 yn y gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2022-23.

Costau Yswiriant Gwladol

Ar 7 Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth EM gynnydd 1.25 y cant i gyfradd y cyfraniadau Yswiriant Gwladol y mae cyflogeion a chyflogwyr yn eu talu o fis Ebrill 2022, felly mae'n debygol bydd pwysau ychwanegol ar gyllideb 2022-23 y Comisiwn.

O gofio amseriad y cyhoeddiad, a'i agoswydd at amserlen cyflwyno cyllideb y Comisiwn, mae'r Comisiwn wedi penderfynu peidio â newid ei amcangyfrif cyllideb ar hyn o bryd. Fodd bynnag, caiff adolygiad arall ei gynnal i ystyried effaith y cynnydd hwn, yn ogystal ag ansicrwydd a phwysau eraill sy'n dod i'r amlwg.

Pennir y gyllideb yn seiliedig ar angen ac nid oes llawer o le ar gyfer gofynion ychwanegol, felly mae'n debygol y bydd hyn yn arwain at Gyllideb Atodol yn ystod 2022. Mae'n debygol mai tua £300k fydd cyfanswm effaith y cynnydd ar draws yr holl gostau cyflog (Aelodau o'r Senedd, staff cymorth yr Aelodau a staff y Comisiwn).

3. Llywodraethiant a rheolaeth ariannol

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd yn cefnogi'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yng nghyswllt eu cyfrifoldebau o ran rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethiant corfforaethol.

Fel rhan o'i rôl, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn dangos diddordeb mawr yn yr amgylchedd rheoli ariannol mewnol ac yn ei oruchwyllo. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am bolisiau cyfrifyddu a'r sefyllfa gyllidebol ac mae hefyd yn ymddiddori'n frwd wrth archwilio'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Mae aelodau o'r Pwyllgor hefyd wedi goruchwyllo a herio'r fframwaith sicrwydd a'r datganiad llywodraethu.

Mae'r timau archwilio allanol a mewnol yn ffynonellau sicrwydd pwysig i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Swyddog Cyfrifyddu. Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol y Comisiwn a chaiff gymorth yn ei waith gan Archwilio Cymru. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, cyhoeddwyd barn ddiamod am y datganiadau ariannol.

Yn 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid Ddatganiad o Egwyddorion ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol i'w hystyried wrth lunio eu hamcangyfrifon cyllideb blynyddol. Mae'r Comisiwn wedi cofio'r egwyddorion hyn wrth lunio ei amcangyfrif cyllideb ar gyfer 2022-23. Mae'r amcangyfrifon yn dryloyw a rhoddir tystiolaeth o'r angen am yr adnoddau y gofynnir amdanynt a'r budd ohonynt yn y ddogfen naratif hon.

Mae gan y Bwrdd Gweithredol (y "Bwrdd") gyfrifoldeb strategol am sicrhau y caiff adnoddau'r Comisiwn eu defnyddio'n effeithiol, mae'n rhoi her i arweinwyr gwasanaeth ymdrechu i wella'n barhaus ac yn arwain ymdrechion i sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gymeradwyo cynlluniau buddsoddi blynyddol y Comisiwn ac am flaenoriaethu buddsoddiad yn y ffordd orau. Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod y gwaith cynllunio capasiti adnoddau yn cyd-fynd â nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn ac mae'n darparu gwaith llywodraethu a sicrwydd ar gyfer prosiectau newid o bwys.

4. Y Gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau

Y Bwrdd Taliadau annibynnol yw'r corff sy'n pennu cyflogau a thaliadau'r Aelodau a'u staff cymorth, a'r system cymorth ariannol sydd ei hangen i'r Aelodau gyflawni eu cyfrifoldebau fel cynrychiolwyr etholedig.

Mae Penderfyniad y Bwrdd Taliadau yn rhoi arian ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â bod yn Aelod a/neu'n ddeiliad swydd, er enghraifft:

- cynnal swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr;
- cyflogau a chostau teithio staff cymorth;
- llety preswyl yng Nghaerdydd i'r Aelodau y mae eu cartref yn bellter sylweddol i ffwrdd o'r Senedd (mae meini prawf cymhwysedd yn gymwys);
- cymorth i Grwpiau'r Pleidiau ac ymchwil polisi.

Mae'r Penderfyniad yn pennu cyflog sylfaenol yr Aelodau a chyflogau deiliaid swyddi ychwanegol. Mae'r Penderfyniad hefyd yn pennu'r dull ar gyfer codiadau i'r cyflogau hyn; yn 2022-23 disgwylir y bydd cyflogau'r Aelodau yn cynyddu yn unol â'r enillion cyfartalog yng Nghymru fel y'u mesurir gan yr Arolwg Blyneddol o Oriau ac Enillion ("ASHE"), wedi'i gyfyngu ar 3 y cant. Mae cyflog sylfaenol yr Aelodau ddechrau 2022-23 wedi'i gyllidebu ar £69,678 sy'n tybio cynnydd 3 y cant ar y lefel bresennol.

Caiff yr Aelodau gyflogi staff i'w cefnogi ym mhob agwedd ar eu rôl. Y gyllideb ar gyfer costau staff cymorth ar gyfer 2022-23 yw £9.393 miliwn, sy'n cynnwys codiad 3 y cant. Mae cynnydd 3 y cant hefyd wedi'i gymhwyso ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol, gan fod costau staff cymorth hefyd yn dilyn ASHE, wedi'i gyfyngu ar 3 y cant. O ddechrau'r Chweched Senedd, mae gan Staff Cymorth yr Aelodau fynediad at gynllun pensiwn lle y mae'r Comisiwn yn cyfrannu'r un peth â hwy (hyd at 3 y cant), yn ychwanegol at y cyfraniad cyflogwr presennol, sef 10 y cant. Tybiwyd y byddai 50 y cant o'r staff yn derbyn cyfraniad ar y lefel uchaf, sef 3 y cant, ar gyfer cyllideb 2022-23.

Gwnaed lwfans £0.5 miliwn ar gyfer trosiant staff disgwylidig (lle y mae'r gyllideb yn cael ei rhyddhau oherwydd swyddi gwag staff).

Yn 2020-21, crëwyd tanwariant o'r cyllidebau costau swyddfa a theithio a oedd yn golygu y gellid talu costau newydd, megis lwfansau gweithio gartref i staff cymorth a chyfarpar sgrin arddangos. Yn ystod 2021-22, mae'r Aelodau'n debygol o ailasesu sut y maent yn defnyddio eu lwfansau i addasu i'r ffyrdd newydd hyn o weithio, a fydd yn helpu i egluro gofynion yng nghylchoedd cynllunio'r gyllideb yn y dyfodol.

Mae'r Bwrdd Taliadau yn adolygu elfennau eraill o'i Benderfyniad yn flynyddol neu'n gyfnodol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol, er enghraifft, mae Cronfa Dychwelyd i'r Swyddfa yn sgil Covid-19 wedi'i sefydlu, i dalu costau mesurau iechyd a diogelwch a nodwyd yn asesiadau risg yr Aelodau o'u gweithleoedd (ac eithrio'r rhai ar ystâd y Senedd). At ddiben darparu ffigurau dangosol ar gyfer y blynyddoedd i ddod, tybiwyd codiad cyflog 2 y cant yn unol â chwyddiant.

Dangosir y gyllideb i ariannu Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer 2022-23 a'r ddwy flynedd ddilynol yn Nhabl 9.

5. Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20.13 y Senedd i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb Flynyddol sy'n ofynnol yn ôl Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys gofynion Comisiwn y Senedd o ran adnoddau ac arian ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023.

Bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Gwasanaethau'r Aelodau a'r Senedd. Mae'r cynnig yn cynnwys yr incwm uchaf (neu'r adnoddau cronus) y gellir eu cadw i'w defnyddio ar y gwasanaethau ac at y dibenion hynny yn lle eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd hefyd yn nodi swm yr arian parod y bydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net disgwylidig sy'n ddyledus i'w talu gan y Comisiwn.

Nodir y gyllideb ar gyfer y Senedd yn 2022-23, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion hyn yn Nhabl 1.

Tabl 1: Cyllideb 2022-23 ar gyfer y Senedd yn unol â'r gofynion

Gofynion y Senedd	2022-23 £000
<p>Adnoddau ar wahân i adnoddau cronrus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd ('y Comisiwn') ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gefnogi'r Senedd; hyrwyddo'r Senedd gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; taliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Senedd neu'r Comisiwn.</p> <p>Adnoddau ar wahân i adnoddau cronrus i'w defnyddio gan y Comisiwn mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant mewn perthynas â darparu Cynllun Pensiwn yr Aelodau o'r Senedd</p>	<p>£62,942 Tabl 2</p>
<p>Adnoddau cronrus i'w cadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan y Comisiwn, o waredu asedau sefydlog, ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog, incwm rhent, rhoddion, grantiau, sieciau, ad-daliadau ac incwm o werthiannau masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd neu eraill i'w defnyddio ar gostau gweinyddol y Senedd</p>	<p>£220 Tabl 8</p>
<p>Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion namyn derbyniadau disgwylidig a TAW y gellir ei hadennill</p>	<p>£59,242 Tabl 3</p>

Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb

Tabl 2: Trosolwg o'r Gyllideb

Pennawd y Gyllideb	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn	£000	£000	£000	£000
Cyflogau staff a chostau cysylltiedig (Tabl 4)	£26,325	£27,417	£28,033	£28,598
Adeiladau a chyfleusterau (Tabl 5)	£7,798	£7,809	£7,867	£7,926
Costau TGCh (Tabl 6)	£2,380	£2,614	£2,720	£2,736
Costau eraill (Tabl 7)	£2,202	£2,055	£2,055	£2,055
Cyfanswm Gwariant Refeniw	£38,705	£39,895	£40,675	£41,315
Cyfanswm Incwm (Tabl 8)	(£220)	(£220)	(£220)	(£220)
Gwariant Cyfalaf (Tabl 10)	£500	£500	£500	£500
Cronfa Brosiectau (Tabl 10)	£460	£1,000	£1,000	£1,000
Cyfanswm yr adnoddau gweithredol (ac eithrio eitemau nad ydynt yn arian parod)	£39,445	£41,175	£41,955	£42,595
Dibrisiant ac amorteiddiad (nad ydynt yn arian parod)	£2,250	£2,250	£2,250	£2,250
Cyfanswm gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn	£41,695	£43,425	£44,205	£44,845
Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Aelodau				
Cyflogau'r Aelodau a chostau cysylltiedig (Tabl 9) ⁽¹⁾	£16,819	£17,552	£18,072	£18,606
Cyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau (Tabl 11)	£0	£165	£168	£171
Gwariant sy'n gysylltiedig â'r etholiad	£2,600	£0	£0	£0
Costau cyllid pensiwn yr Aelodau	£1,800	£1,800	£1,800	£1,800
Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn	£62,914	£62,942	£64,245	£65,444

⁽¹⁾ Yn unol â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau

Tabl 3: Cysoni'r gofyniad adnoddau newydd â'r gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

Gofyniad arian parod net	2022-23 £000
Gofyniad refeniw net yr Aelodau	£17,552
Cyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau	£165
Gofyniad refeniw net y Comisiwn	£42,925
Gofyniad cyfalaf net	£500
Gwariant a reolir yn flynyddol	£1,800
Is-gyfanswm	£62,942
Addasiadau	
Dibrisiant	(£2,250)
Newidiadau mewn darpariaethau	(£1,800)
Newidiadau o ran dyledwyr a chredydwyr	£350
Is-gyfanswm	(£3,700)
Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru	£59,242

Atodiad 2: Manylion y Gyllideb

Tabl 4: Dadansoddiad o gyflogau staff a chostau cysylltiedig

	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
	£000	£000	£000	£000
Costau staff y Comisiwn	£27,196	£28,417	£29,033	£29,598
Costau staff y Comisiynydd Safonau ⁽¹⁾	£129	£0	£0	£0
Swyddi Gwag / trosiant staff	(£1,000)	(£1,000)	(£1,000)	(£1,000)
Cyfanswm	£26,325	£27,417	£28,033	£28,598

⁽¹⁾ Mae costau cymorth staff y Comisiynydd Safonau bellach yn Nhabl 11

Tabl 5: Dadansoddiad o Gostau Adeiladau a Chyfleusterau

	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
	£000	£000	£000	£000
Rhent ac ardrethi yn cynnwys parcio ceir	£4,307	£4,307	£4,334	£4,363
Cynnal a chadw a gwaith	£980	£1,030	£1,030	£1,030
Diogelwch	£773	£773	£773	£773
Cyfleustodau	£582	£582	£594	£606
Glanhau	£537	£533	£544	£554
Arlwyo	£399	£399	£407	£415
Rhentu llungopiwyd	£160	£125	£125	£125
Dodrefn a gosodiadau	£60	£60	£60	£60
Cyfanswm	£7,798	£7,809	£7,867	£7,926

Tabl 6: Dadansoddiad o gostau TGCh

	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
	£000	£000	£000	£000
Gwasanaethau TGCh	£514	£571	£571	£571
Darlledu	£683	£682	£788	£804
Trwyddedu a chynnal a chadw	£1,083	£1,261	£1,261	£1,261
Refeniw a defnyddiau traul	£100	£100	£100	£100
Cyfanswm	£2,380	£2,614	£2,720	£2,736

Tabl 7: Dadansoddiad o gostau eraill

	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
	£000	£000	£000	£000
Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth	£289	£271	£271	£271
Hyfforddi a datblygu	£339	£374	£374	£374
Gwasanaethau iaith dan gontract	£270	£300	£300	£300
Argraffu, deunydd ysgrifennu a phostio	£229	£76	£76	£76
Costau Adnoddau Dynol eraill	£166	£166	£166	£166
Yswiriant a chostau cyfreithiol	£144	£141	£141	£141
Teithio a chynhaliaeth staff	£132	£127	£127	£127
Cyhoeddiadau	£127	£127	£127	£127
Teithio a chynhaliaeth arall	£103	£95	£95	£95
Archwilio	£75	£75	£75	£75
Costau sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Taliadau	£62	£37	£37	£37
Cyngor arbenigol	£45	£46	£46	£46
Ymgysylltu academaidd	£40	£40	£40	£40
Ymgynghori	£30	£30	£30	£30

	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
	£000	£000	£000	£000
Lletygarwch	£29	£29	£29	£29
Cyfrifyddu a gwasanaethau ariannol	£31	£31	£31	£31
Gwisgoedd a dillad	£15	£15	£15	£15
Fetio	£10	£10	£10	£10
Eitemau eraill <£20k	£66	£65	£65	£65
Cyfanswm	£2,202	£2,055	£2,055	£2,055

Tabl 8: Dadansoddiad o Incwm

	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
	£000	£000	£000	£000
Gwerthiannau - siop y Senedd	(£20)	(£20)	(£20)	(£20)
Adeiladau - incwm rhentu	(£58)	(£58)	(£58)	(£58)
Incwm parcio ceir ac incwm arall	(£142)	(£142)	(£142)	(£142)
Cyfanswm	(£220)	(£220)	(£220)	(£220)

Tabl 9: Dadansoddiad o gyflogau'r Aelodau a'r costau cysylltiedig

	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
	£000	£000	£000	£000
Cyflogau Aelodau o'r Senedd ac argostau	£6,731	£6,453	£6,647	£6,846
Cyflogau Staff Cymorth yr Aelodau ac argostau	£8,942	£9,393	£9,675	£9,965
Lwfansau a Chostau Swyddfa	£2,146	£2,206	£2,250	£2,295
Tanwariant disgwyltiedig	(£1,000)	(£500)	(£500)	(£500)
Cyfanswm	£16,819	£17,552	£18,072	£18,606

Tabl 10: Prosiectau â blaenoriaeth ar gyfer 2022-23

	2022-23 £000
Gweithgareddau ymgysylltu ac allgymorth	£200
Gwariant arfaethedig y tîm Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau	£600
Gwariant arfaethedig y tîm TGCh	£400
Ffyrdd o weithio yn y dyfodol	£300
Cyfanswm	£1,500

Tabl 11: Cyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau ⁽¹⁾

	2021-22 £000	2022-23 £000	2023-24 £000	2024-25 £000
Costau staff	£0	£141	£144	£147
Cyngor cyfreithiol	£0	£24	£24	£24
Cyfathrebu	£0	£0	£0	£0
Cyfanswm	£0	£165	£168	£171

⁽¹⁾ Cynhwyswyd costau yn Nhabl 4 yn flaenorol